SL(5)456 - Rheoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud gwelliannau mewn perthynas â Chymru i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â physgodfeydd môr. Mae'r gwelliannau'n diweddaru ac yn disodli cyfeiriadau at Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 ar gyfer cadwraeth adnoddau pysgodfeydd drwy fesurau technegol gan gyfeirio at Reoliad (EU) 2019/1241 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 20 Mehefin 2019 ar gadwraeth adnoddau pysgodfeydd.

Caiff cyfeiriadau yn y Gorchmynion canlynol eu diweddaru i sicrhau eu bod yn weithredol ac yn orfodadwy:

1. Gorchymyn Gwahardd Pysgota â Threillrwydi Lluosog (Cymru) 2003

2. Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010; a

3. Gorchymyn Pysgota am Gregyn Moch (Cymru) 2019

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Gorchmynion a restrir uchod, sy'n cael eu diwygio gan yr offeryn hwn, yn gweithredu amryw o rwymedigaethau'r UE o ran cadwraeth adnoddau pysgodfeydd. Bydd y Rheoliadau hyn yn ffurfio rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl y diwrnod ymadael.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 21 Hydref 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.